VOLUNTEERS' WEEK

# Sut i argraffu sticeri label

## Cam 1 – Dewis eich labeli

Argymhellwn **80 x 30mm Hirsgwar, Labeli Plaen Avery®** ar gyfer eich sticeri label. Gallwch eu prynu o wefan Avery

Prynu dalennau label Avery: https://www.avery.co.uk/blank-labels/rectangle-80x30mm (Saesneg yn unig)

## Cam 2 – Dewiswch eich dalen sticeri i'w hargraffu

Mae gennym opsiynau lliw a du a gwyn i chi eu defnyddio, yn unol â'ch gofynion. Mae'r rhain yn ffeiliau PDF.

## Cam 3 – Llwytho eich dalennau label i mewn i'r argraffydd

Gellir ychwanegu'r rhain i'ch argraffydd fel dalennau papur arferol. Gallwch naill ai eu hychwanegu at eich blwch papur neu eu bwydo i mewn i'r argraffydd drwy flwch bwydo â llaw (os oes gennych chi un). Cyn i chi argraffu ar eich labeli, argymhellwn eich bod yn gwirio pa ffordd i wynebu'r labeli (bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar wneuthurwr eich argraffydd). Gwnewch brawf ymlaen llaw drwy farcio dalen blaen o bapur i weld pa ochr y mae'n argraffu arno a pha gyfeiriad sydd angen i chi wynebu eich dalennau label.

## Cam 4 – Argraffu eich labeli

I gael y canlyniadau gorau, argymhellwn eich bod yn **lawrlwytho** eich Print PDF ac yn ei agor gydag Adobe Acrobat Read gan eich bod yn cael mwy o reolaeth, ond gallwch hefyd agor y PDF yn eich porwr rhyngrwyd.

Pan fydd y Print PDF yn agor, gwnewch yn siŵr bod gosodiadau eich argraffydd ar bapur A4, Labeli a bod y graddio wedi'i osod ar 100% (neu "actual size" (maint gwirioneddol).

Dewiswch **print (argraffu)** a dylai fod gennych chi eich labeli sticer Wythnos Gwirfoddolwyr eich hun!